Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Sir Ddinbych

Sector
Adwerthu

Gwerth y prosiect
£8,653

BLUSKY BRANDS

Mae brand trin gwallt unigryw i salonau yn torri i mewn i farchnadoedd newydd diolch i lansiad a oedd yn cyfleu gwir ymdeimlad o foethusrwydd.

Mae Tony Cripps o Blusky Brands wedi bod yn ymwneud â thrin gwallt ers 40 mlynedd. Mae wedi bod yn lliwydd, yn berchennog salon, yn addysgwr, yn ymgynghorydd gwerthu, yn ddosbarthwr ac yn fewnforiwr. Felly mae'n gwybod beth sydd ei angen pan fyddwch chi'n lansio cynnyrch i'r farchnad hynod gystadleuol hon.

Yn anad dim, mae angen steil arnoch. "Mae trin gwallt yn ddiwydiant creu delwedd i raddau helaeth," meddai. "Fyddwch chi byth yn mynd i unman heb frand cryf ac apêl weledol go iawn. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cynnyrch ar lefel uchel iawn i lwyddo yn y farchnad."

Ynghyd â'i bartner o Awstralia, Sean Cassar, roedd Tony wedi bod yn gweithio am bedair blynedd ar amrywiaeth unigryw o lanhawyr ac adferwyr a oedd yn cael eu galw'n Mane Tribe. Eu nod oedd cynnig "moethusrwydd cynaliadwy fforddiadwy" – roedd popeth yn ystyriol o ddiet fegan, heb baraben ac yn ddi-greulondeb gyda deunydd pacio y gellir ei ailgylchu. Y darn olaf o'r jig-so oedd sicrhau bod y cyflwyniad yn cyd-fynd ag ansawdd y cynnyrch.

Roedd grant Adnewyddu Menter yn golygu y gallai Tony roi hwb i lansiad Mane Tribe. Roedd yn talu am ffotograffiaeth broffesiynol, taflenni cyflwynwyr o safon uchel a marchnata ac arddangos mewn salonau. Fe wnaethon nhw hefyd ffilmio fideos o'r safon uchaf o'r cynnyrch ar waith ar gyfer gwefan newydd Blusky Brands. Roedd y cyfan yn taro'r nodyn cywir yn union.

"Mae'r adborth gan salonau wedi bod yn wych," meddai Tony, o Lyndyfrdwy. "Maen nhw wrth eu bodd ei fod yn unigryw iawn – roedd llawer wedi rhoi'r ffidil yn y to gyda manwerthu. Roedden nhw'n gweld eu bod yn buddsoddi mewn cynnyrch ac yn ei hyrwyddo i gwsmeriaid, a oedd wedyn yn mynd i ffwrdd ac yn ei brynu'n rhatach ar-lein.

"Mae'r amrediad Mane Tribe yn golygu eu bod yn gallu cystadlu â fferyllwyr, archfarchnadoedd a'r rhyngrwyd a'u bod yn gallu dechrau rhoi gwerthiannau gofal gwallt yn ôl lle dylen nhw fod – mewn salonau, sy'n cael eu hargymell gan y steilydd proffesiynol."

Gyda Mane Tribe a'r amrediad gwallt i ddynion, Jack the Barber, bellach yn rhan gadarn o bortffolio Brandiau Blusky, mae'r cwmni'n mynd o nerth i nerth. Mae eu trosiant ar gynnydd cryf ac mae cwsmeriaid eu salon yn gwneud mwy o arian hefyd.

"Roedd ein grant yn golygu ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar ein lansiad," meddai Tony. "Mae wedi helpu'n fawr gyda chydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth y brand – ac nid dim ond yn y DU. Rydym newydd sicrhau ein dosbarthwr tramor cyntaf yng Nghyprus gyda nifer o ymholiadau eraill o ganol Ewrop a'r UDA. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am y manteision mae wedi'u rhoi i ni."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government